

Partyscelyn

Agor
Medi 2020

THE SUNDAY TIMES
THE SUNDAY TIMES

CANLLAW
PRIFYSGOLION
DA
2020

PRIFYSGOL
Y FLWYDDYN
YNG NGHYMRU



Pantycelyn

- Mwy na Neuadd

Yn 2020 bydd Neuadd Pantycelyn ar ei newydd wedd yn agor ei drysau ac yn galon i gymuned myfyrwyr Cymraeg Prifysgol Aberystwyth.

Bydd yr adeilad eiconig yn 'gartref-oddi-cartref' i fyfyrwyr o bob cwr o Gymru a thu hwnt ac yn darparu llety o'r radd flaenaf i 200 o fyfyrwyr mewn ystafelloedd en-suite. Neuadd arlwyio yw Pantycelyn, sy'n parhau â'r traddodiad o gynnig ffreutur, lolfa, lle i gymdeithasu ac mannau astudio am £167 yr wythnos am 33 wythnos (£5,511 y flwyddyn), ac ni fydd yn ofynnol i fyfyrwyr symud eu heiddo allan o Pantycelyn yn ystod y gwyliau.

Bydd Pantycelyn hefyd yn gartref i UMCA - Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, sy'n gofalu am les a buddiannau myfyrwyr, ac yn trefnu rhaglen fywiog o ddigwyddiadau cymdeithasol. Byddwch yn rhan o'r bwrllwm ac yn un o'r miloedd o fyfyrwyr sydd wedi galw Pantycelyn yn 'gartref'.

Prif nodweddion Pantycelyn


Ystafelloedd sengl en-suite

Bydd Pantycelyn yn costio £167.02 yr wythnos, gyda chyfanswm y cytundeb preswyllydd yn 33 wythnos. Mae'r ffi am y llety yn cynnwys yr holl filiau, cysylltiad rhyngwyd (gwifredig a WiFi), yswiriant cynnwys personol ac aelodaeth Blatinwm o'r Ganolfan Chwaraeon.

Fel neuadd arlwyol, gall myfyrwyr gael brecwast a phryd gyda'r nos yn 'Y Ffreutur' ar y llawr gwaelod o ddydd Llun i ddydd Gwener. Fodd bynnag, gall preswylwyr ddefnyddio'r lwfans arlwyio o £50 yr wythnos ar unrhyw adeg, ac yn unrhyw fan arlwyio ar draws y Brifysgol. Bydd hyn yn rhoi'r rhyddid i chi i ddefnyddio'r lwfans arlwyio yn y ffordd sy'n gweddu orau i chi.

Bydd Pantycelyn hefyd yn cynnwys ceginau bach gyda'r cyfarpar canlynol:

- Popty micro-don
- Tostiwr
- Oergell/Rhwngell
- Boeler dŵr poeth
- Sinc



Ar lawr gwaelod Pantycelyn, bydd sawl ystafell gymunedol a fydd yn cynnig ystod eang o gyfleusterau a gwasanaethau. Rhoddir isod fanylion am y cyfleusterau a'r gwasanaethau a gynigir fesul ystafell:

Lolfa Fach	Ystafell aml-bwrpas: - Wal addysgu a darllenfa ar gyfer sgysiau a darlithoedd. - Piano y gellir ei ddefnyddio ar gyfer ymarferion Côr Pantycelyn. - Cadeiriau, a byrddau y gellir eu rhoi i gadw i ganiatau defnydd hyblyg o'r ystafell.
Ystafell Gyffredin Hŷn	Ystafell gyfarfod mawr gydag offer rhoi cyflwyniadau. Bydd yr ystafell hon yn gartref i biano cyngerdd bach felly gall grwpiau bychan ei ddefnyddio i ymarfer cerddoriaeth.
Ystafell Gyffredin Iau	Lolfa fach gyda soffas a byrddau coffi.
Lolfa Fawr	Lolfa fawr gyda soffas, byrddau coffi, cyfleusterau aml-gyfrwng a lle i chwarae gemau.
Ystafell Astudio 1	Ystafell astudio tawel gyda chyfleusterau cyfrifiadura.
Ystafell Astudio 2	Ystafell astudio tawel gyda chyfleusterau cyfrifiadura.
Y Ffreutur	Bwyty mawr gyda meinciau eistedd.
Ystafell Bost	Ystafell bwrpasol ar gyfer post a pharseli gyda blychau post diogel.
Ystafelloedd Cyfarfod	Darperir dwy ystafell gyfarfod bach yn ychwanegol i'r Ystafell Gyffredin Hŷn.
Ystafell Golchi Dillad	Darperir ystafell golchi dillad ar y safle gyda 4 peiriant golchi a 4 sychwr.

Sut i fwynhau'ch hun ym Mhrifysgol Aberystwyth mewn 4 cam

Beth am ymuno â...

1 UMCA

Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth, a roi ei henw llawn iddi, yw undeb myfyrwyr Cymraeg hynaf Cymru. Mae'r Undeb yn chwarae sawl rhan ym mywyd y myfyrwyr Cymraeg megis:

- cynrychioli buddiannau myfyrwyr
- ymgychu dros faterion addysgiadol, cymdeithasol ac ieithyddol
- trefnu nosweithiau adloniant cymdeithasol megis Wythnos y Glas, y Ddawns Ryng-gol a nosweithiau Sŵn.
- Ar ben hyn mae UMCA yn cynnig gwersi Cymraeg am ddim.



@UMCA_



@umcaberystwyth

2 Y Geltaidd

Cymdeithas chwaraeon sy'n cynnwys amrywiaeth o dimoedd sy'n chwarae drwy'r Gymraeg gan gynnwys pêl-droed bechgyn, pêl-droed merched, rygbi merched, rygbi bechgyn a phêl-rwyd. Mae'r Geltaidd hefyd yn trefnu nifer o ddigwyddiadau cymdeithasol, gan gynnwys taith rygbi flynyddol i gefnogi Cymru yng ngemau'r chwe gwlad!



@YGeltaidd



@y_geltaidd

3 Cymdeithasau Undeb y Myfyrwyr- Tîm Aber


Gall ymuno â chlybiau chwaraeon a chymdeithasau yn Aberystwyth wneud eich profiad chi fel myfyriwr yn un bythgofiadwy. Gyda 50 a mwy o wahanol glybiau chwaraeon a 100 o gymdeithasau mae gennym ni rywbeth at ddant pawb.



www.abersu.co.uk


4 Y Ganolfan Chwaraeon

Mae gan y Brifysgol adnoddau chwaraeon heb eu hail, gan gynnwys cae chwarae 3G, pwll nofio a sawna, campfa a champfa pwysau rhydd, ystafell sbinio, ystafell ddawns, wal ddringo, a thros 50 erw o feysydd chwarae a llawer mwy.



Tocyn Aur:

cyfle i ennill cost y llety ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd y tocyn aur yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i fyw yn Neuadd Pantycelyn yn eu blwyddyn gyntaf. Bydd un enillydd yn cael ei ddewis ar hap.



Tocyn Arian:

cyfle i ennill gostyngiad o 50% yn ffioedd y llety ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Bydd y tocyn arian yn berthnasol i fyfyrwyr sy'n gwneud cais i fyw yn Neuadd Pantycelyn yn eu blwyddyn gyntaf. Bydd hyd at 4 o enillwyr yn cael eu dewis ar hap.

Dyluniwyd a chynhyrchwyd gan yr Adran Marchnata a Denu Myfyrwyr, Prifysgol Aberystwyth Chwefror 2020. Rhif: 103750.